

Safon Rheoli Cymru ar gyfer Cofnodion Iechyd a Gofal Electronig

Atodiadau - yn atodol i'r Safon Rheoli

Fersiwn Rhif 5.0
Statws: TERFYNOL

Awdur: Siân Howson, IGDC
Cymeradwywr: Darren Lloyd, IGDC

Dyddiad: 04/08/2025
Dyddiad Adolygu Nesaf: 04/08/2027

Pencadlys Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Tŷ Glan-yr-Afon
21 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen
Caerdydd
CF11 9AD
<https://igdc.gig.cymru/>

- MEWNOL -

OS YW'R DDOGFEN HON YN CAEL EI HARGRAFFU, DAIFF Y DDOGFEN HON YN DDOGFEN NA ELLIR EI RHEOLI


Hanes y Ddogfen

Hanes Adolygu

Dyddiad	Fersiwn	Awdur	Crynodeb o'r Adolygiad
03.04.17	F1	S Howson / A Fletcher	Fersiwn Derfynol
23.05.17	F2	J Short	Adolygiad o strwythur a mireinio adrannau yn dilyn adborth. Ymgorffori sylwadau'r Cyfarwyddwr Meddygol.
16.12.19	F3	Andrew Fletcher (Is-grŵp Polisi IGMAG)	Adolygiad o destun y safon rheoli, adolygiad o strwythur, mireinio adrannau, diweddariadau i gyfeiriadau yn unol â GDPR
22.02.22	F3-1	Marcus Sandberg / Andrew Fletcher	Adolygiad
13.04.22	F4	Marcus Sandberg	Terfynol
12.03.25	F4.1	Siân Howson	Adolygiad
02.06.25	F4.2	Siân Howson	Adolygu a chynnwys egwyddorion diogelu data, diweddaru cyfeiriadau, tynnu'r daflen gofrestru, a'i disodli â ffurflen ar-lein.
04.08.25	F5.0	Siân Howson	Terfynol

Awdurdodiad

Mae llofnodi'r ddogfen hon yn dangos eich bod yn derbyn ei chynnwys.

Enw'r Awdur: Siân Howson
Rôl: Uwch Arweinydd Llywodraethu Gwybodaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru


Enw'r Cymeradwywr: Darren Lloyd

- MEWNOL -

OS YW'R DDOGFEN HON YN CAEL EI HARGRAFFU, DAIFF Y DDOGFEN HON YN DDOGFEN NA ELLIR EI RHEOLI

Tudalen 2 o 12

**Atodiadau: Cefnogi'r Safon Rheoli ar gyfer
cofnodion iechyd a gofal electronig (gwybodaeth
a chanllawiau atodol)**



Rôl: Cyfarwyddwr Cyswllt Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion, Iechyd a Gofal Digidol Cymru

D. Lloyd

- MEWNOL -

OS YW'R DDOGFEN HON YN CAEL EI HARGRAFFU, DAIFF Y DDOGFEN HON YN DDOGFEN NA ELLIR EI RHEOLI

Tudalen 3 o 12

Atodiad 1 Gwybodaeth ac Arweiniad Atodol

A. Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) (Adran 2 - Diben)

WASPI yw'r fframwaith rhannu gwybodaeth cenedlaethol derbynol yng Nghymru. Mae'n darparu set o egwyddorion a dogfennau templed sy'n helpu sefydliadau i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth Diogelu Data a Chod Ymarfer Rhannu Data'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Er bod cytundebau rhannu gwybodaeth o fewn fframwaith WASPI yn canolbwyntio ar ddibenion rhannu'r wybodaeth a manylion y data personol a rennir; sef 'pwy, pam, ble, pryd, beth a sut', mae'r Safon Rheoli yn nodi gofynion penodol ynghylch y systemau a ddefnyddir i rannu'r wybodaeth. Nid yw'r Safon Rheoli yn negyddu'r angen am gytundeb rhannu gwybodaeth WASPI, lle bo'n berthnasol.

Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am WASPI ar wefan y fframweithiau - [Hafan WASPI - Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru](#)

B. Ystyriaethau cyfreithiol (Adran 4 – Engbreiffiau o Fecanweithiau ar gyfer Rhannu Data Personol)

Wrth ystyried a yw cynnig i rannu data yn gyfreithlon, mae'n angenrheidiol ystyried yn gyntaf a oes gan y partion i'r trefniant arfaethedig y pwerau angenrheidiol.

Dim ond os oes ganddo'r pŵer i wneud hynny y gall corff cyhoeddus rannu data. Gall y pŵer fod wedi'i nodi'n benodol mewn statud, neu gall fod yn ymhlwg o bwerau a swyddogaethau statudol eraill y corff. Mae hefyd yn bwysig canfod a oes cyfyngiadau statudol penodol ar y gweithgaredd rhannu data arfaethedig, neu unrhyw gyfyngiadau a allai fod yn ymhlwg gan fodolaeth darpariaethau statudol, cyfraith gyffredin neu ddarpariaethau eraill.

I sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau GIG Cymru yng Nghymru, gall yr adrannau canlynol o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 fod yn berthnasol:

- Mae Adran 1 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i barhau i hyrwyddo gwasanaeth iechyd cynhwysfawr wedi'i gynllunio i sicrhau gwelliant yn iechyd corfforol a meddyliol pobl Cymru ac atal, gwneud diagnosis a thrin salwch. Mae Adran 2 o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud unrhyw beth a fwriadwyd i hwyluso cyflawni'r ddyletswydd honno, neu sy'n ffafriol neu'n gysylltiedig â hi.
- Mae Adran 3 yn nodi bod gan Weinidogion Cymru ddyletswydd statudol, ymhlith pethau eraill, i ddarparu ledled Cymru, i'r graddau y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol i fodloni'r holl ofynion rhesymol, wasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau neu gyfleusterau eraill y maent eu hangen ar gyfer gwneud diagnosis a thrin salwch.

- MEWNOL -

OS YW'R DDOGFEN HON YN CAEL EI HARGRAFFU, DAIFF Y DDOGFEN HON YN DDOGFEN NA ELLIR EI RHEOLI

Tudalen 4 o 12

Atodiadau: Cefnogi'r Safon Rheoli ar gyfer cofnodion iechyd a gofal electronig (gwybodaeth a chanllawiau atodol)



- Mae Adran 12 yn nodi y gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo Bwrdd Iechyd Lleol i arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth iechyd mewn perthynas â'i ardal. Yn unol â Rheoliadau'r Bwrdd Iechyd Lleol (Swyddogaethau Dan Gyfarwyddyd) (Cymru) 2009, mae'r ddyletswydd o dan Adran 3 o Ddeddf 2006 wedi'i dirprwyo i'r Byrddau Iechyd Lleol, ac felly maent yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau iechyd yng Nghymru.
- Mae Adran 18 yn nodi y gall Gweinidogion Cymru sefydlu ymddiriedolaethau'r GIG drwy orchymyn i ddarparu nwyddau a gwasanaethau at ddibenion y gwasanaeth iechyd. O dan Adran 19 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i ymddiriedolaeth GIG ynghylch ei chyflawni unrhyw swyddogaethau.
- Mae Adran 22 yn nodi y gall Gweinidogion Cymru sefydlu cyrff arbennig, a elwir yn Awdurdodau Iechyd Arbennig, drwy orchymyn at ddiben arfer unrhyw swyddogaethau a roddir iddynt.
- Mae Adran 24 yn nodi y gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo Awdurdod Iechyd Arbennig i arfer unrhyw un o swyddogaethau Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud â'r gwasanaeth iechyd a bennir yn y cyfarwyddiadau. Mae Adran 23 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn nodi y gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i Awdurdod Iechyd Arbennig ynghylch ei chyflawni unrhyw swyddogaethau.

Mae'r ddeddfwriaeth yn amlinellu egwyddorion allweddol diogelu data y mae'n rhaid eu dilyn. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- **Cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder:** Sicrhau bod data wedi'i brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw mewn perthynas â'r testun data
- **Cyfyngu at ddibenion:** sicrhau bod data yn cael ei gasglu at ddibenion penodol, eglur a chyfreithlon ac nad yw'n cael ei brosesu ymhellach mewn modd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny; ni ddylid ystyried bod prosesu pellach at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, dibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystadegol (yn unol ag Erthygl 89(1) GDPR y DU) yn anghydnaws â'r dibenion cychwynnol.
- **Lleihau data:** sicrhau bod data sy'n cael ei brosesu yn ddigonol, yn berthnasol ac yn cael ei gyfyngu i'r hyn sydd ei angen mewn perthynas â'r dibenion y caiff ei brosesu ar eu cyfer.
- **Cywirdeb:** Sicrhau bod y data sy'n cael ei brosesu yn gywir a, lle bo angen, yn cael ei gadw'n gyfredol. Bydd sefydliadau'n sicrhau bod rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod data personol sy'n anghywir, o ystyried y dibenion y caiff ei brosesu ar eu cyfer, yn cael eu dileu neu eu cywiro heb oedi;
- **Cyfyngu ar y cyfnod cadw:** sicrhau bod y data personol yn cael ei gadw ar ffurf sy'n caniatáu adnabod pynciau data am gyfnod nad yw'n hirach nag sy'n angenrheidiol at y dibenion y mae'r data personol yn cael ei brosesu ar eu cyfer. Gellir storio data personol am gyfnodau hirach i'r

- MEWNOL -

OS YW'R DDOGFEN HON YN CAEL EI HARGRAFFU, DAIFF Y DDOGFEN HON YN DDOGFEN NA ELLIR EI RHEOLI

Tudalen 5 o 12

Atodiadau: Cefnogi'r Safon Rheoli ar gyfer cofnodion iechyd a gofal electronig (gwybodaeth a chanllawiau atodol)



graddau y bydd y data personol yn cael ei brosesu at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, dibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystadegol yn unig yn unol ag Erthygl 89(1) GDPR y DU yn amodol ar weithredu'r mesurau technegol a threfniadol priodol sy'n ofynnol gan GDPR y DU er mwyn diogelu hawliau a rhyddid pwnc y data

- **Uniondeb a chyfrinachedd:** Sicrhau bod data personol yn cael ei brosesu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch priodol y data personol gan gynnwys amddiffyniad rhag prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon ac yn erbyn colled, dinistr neu ddifrod damweiniol gan ddefnyddio mesurau technegol neu drefniadol priodol
- **Atebolrwydd:** bydd pob sefydliad yn gyfrifol am Erthygl 5(1)(a-f) GDPR y DU ac yn gallu dangos cydymffurfiaeth â hi.

C. Cyfrifoldebau staff (Adran 6 – Mynediad a Defnydd Priodol)

Rhaid i staff pob sefydliad:

- a) Fod yn gyfrifol am eu gweithredoedd eu hunain gan gynnwys defnyddio, casglu, storio, cyrchu a datgelu neu rannu gwybodaeth;
- b) Dim ond cyrchu a defnyddio'r wybodaeth i gefnogi eu rôl ym maes gofal a lles uniongyrchol defnyddiwr y gwasanaeth;
- c) Bod yn agored ac yn dryloyw gyda defnyddiwr y gwasanaeth ynglŷn â defnyddio ei wybodaeth;
- d) Cynnal cofnod defnyddiwr y gwasanaeth yn unol â safonau proffesiynol a rheoli cofnodion;
- e) Ymgymryd â hyfforddiant rheolaidd mewn llywodraethu gwybodaeth, defnyddio gwybodaeth a'r systemau a'r cymwysiadau gwybodaeth perthnasol.

D. Telerau Mynediad i gofnodion iechyd electronig a rennir (Adran 6 Mynediad a Defnydd Priodol)

Lle cedwir cofnodion electronig, cânt eu cadw ar systemau cyfrifiadurol diogel y GIG; dim ond personél hyfforddedig ac awdurdodedig sy'n cael caniatâd i gyrchu systemau cyfrifiadurol GIG Cymru. Bydd y mesurau diogelwch sydd ar waith wedi'u cynllunio i warantu bod holl wybodaeth defnyddwyr y gwasanaeth yn cael ei thrin yn sensitif ac yn gyfrinachol. Mae dulliau a gweithdrefnau ar gyfer mynediad diogel yn cael eu hadolygu'n barhaus er mwyn cynnal proses o welliant technegol.

Yn ogystal â'r prosesau a ddisgrifir yn yr adran hon, bydd angen atebion TG i reoli'r prosesau hyn; gellir gweithredu'r rhain ar lefel leol neu genedlaethol.

- MEWNOL -

OS YW'R DDOGFEN HON YN CAEL EI HARGRAFFU, DAIFF Y DDOGFEN HON YN DDOGFEN NA ELLIR EI RHEOLI

Tudalen 6 o 12

E. Mynediad a rheolaethau sy'n seiliedig ar rôl (Adran 6 – Mynediad a Defnydd Priodol)

Mae rheolaethau mynediad sy'n seiliedig ar rolau yn ofyniad allweddol ar gyfer systemau sy'n rhannu cofnodion iechyd electronig ar yr egwyddor mai dim ond yn unol â'u rôl y dylai aelod o staff gael mynediad at wybodaeth. Mae mynediad yn seiliedig ar rôl yn darparu dull rheoli mynediad y gellir ei raddoli. Mae'r egwyddorion y dylid ystyried eu mabwysiadu a'u datblygu unrhyw fodelau mynediad seiliedig ar rolau fel a ganlyn:

- Cadwch bethau'n syml;
- Mae hyder yn seiliedig yn helaeth ar ymddiriedaeth;
- Caniateir mynediad at wybodaeth ar sail 'angen i wybod' bob amser.

Wrth ddatblygu rolau defnyddwyr, efallai y bydd angen grwpio defnyddwyr gyda set gyffredin o freintiau cyrchu, h.y. bydd pob rôl mynediad defnyddiwr yn darparu set o ddefnyddwyr â'r un lefelau o fynediad i'r un mathau o ddata. Yn gyffredinol, bydd y rhain yn ymwneud â graddfa'r mynediad at wybodaeth am gleifion sydd ei hangen ac er enghraifft, a oes angen mynediad darllen yn unig neu fynediad i ddiweddariadau.

F. Rheoli cyfrifon defnyddwyr (Adran 6 – Mynediad a Defnydd Priodol)

Mae cynnal gwybodaeth gywir am gyfrifon defnyddwyr yn gyfrifoldeb 'ar y cyd/a rennir' rhwng y defnyddiwr unigol a'r sefydliad a roddodd fynediad i'r defnyddiwr. Penderfyniad lleol yw'r dull a ddefnyddir i reoli cyfrifon, ond rhaid iddo gynnwys rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir.

Yn ogystal ag unrhyw gytundebau gweithio ar y cyd, dylai gweithdrefnau lleol fodoli i fynd i'r afael ag ychwanegu/dileu manylion cofrestru defnyddwyr a'u cynnal. Dylai'r gweithdrefnau hyn ddisgrifio'n glir rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n rhan o'r cytundeb wrth gynnal gwybodaeth gywir am gyfrifon defnyddwyr ac wrth ddarparu mynediad at gofnodion a rennir.

Rhaid rheoli mynediad gan enw defnyddiwr a chyfrinair unigryw sy'n bodloni Safon GIG Cymru ar gyfer dilysu cryf ar y lefel e-Gif briodol. Rhaid i reoli cyfrineiriau a diogelwch mynediad arall gydymffurfio â'r manylbau a nodir yn y Safon Ryngwladol ar gyfer Systemau Rheoli Diogelwch Gwybodaeth ISO27001 a dilyn y polisi perthnasol.

G. Ansawdd Data (Adran 7 – Hawliau Unigol)

Mae angen i bawb sy'n ymwneud â gofal defnyddiwr gwasanaethau allu dibynnu ar gywirdeb y wybodaeth sydd ar gael er mwyn gallu darparu triniaeth neu ofal amserol ac effeithiol i'r unigolyn hwnnw, cynnal uniondeb gwybodaeth defnyddwyr gwasanaethau a lleihau risg. Mae hyn yn dod yn bwysicach fyth wrth i ni symud i fynd cofnodion electronig a rennir.

Atodiadau: Cefnogi'r Safon Rheoli ar gyfer cofnodion iechyd a gofal electronig (gwybodaeth a chanllawiau atodol)



Mae enghreifftiau o pryd y gellir gwneud gwiriadau i sicrhau ansawdd data yn cynnwys y canlynol:

- Pan fydd defnyddiwr gwasanaethau yn mynd i apwyntiad;
- Os yw defnyddiwr gwasanaethau yn ffonio canolfan alwadau i archebu apwyntiadau;
- Pan dderbynnir atgyfeiriadau; neu
- Ar adeg derbyn (ar gyfer gwasanaethau gofal eilaidd neu driniaeth).

H. Cofnodion dyblyg a rôl y Mynegai Cleifion Meistr (Adran 7 – Hawliau Unigol)

Gall nifer o gofnodion dyblyg neu ddryslyd ddigwydd lle mae gan ddefnyddwyr gwasanaethau yr un enw cyntaf, cyfenw, dyddiad geni a chod post.

Mae'r Mynegai Cleifion Meistr (MPI) yn system o Gymru sy'n ei gwneud hi'n haws sicrhau bod cleifion yn cael eu hadnabod yn gywir ac yn lleihau nifer y cofnodion iechyd dyblyg a gedwir ar gyfer pob claf.

Mae nifer fawr o gofnodion dyblyg wedi'u nodi o fewn yr MPI. Mae llawer o'r dyblygu hyn yn hanesyddol ac yn ymwneud â chleifion sydd bellach wedi marw neu wedi symud i ffwrdd, fodd bynnag, mae cofnodion dyblyg newydd yn parhau i gael eu creu ar gyfradd gyson.

Bydd y meini prawf a nodir yn y safon yn lleihau'r risg o greu cofnodion dyblyg.

Mae adroddiadau ar gael sy'n nodi problemau ansawdd data posibl o fewn cofnodion Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau.

Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Cofnodion a gofrestrwyd yn ddiweddar sy'n ddyblygiadau;
- Cofnodion a gofrestrwyd yn ddiweddar a allai fod yn ddyblygiadau;
- Cofnodion ar gyfer cleifion sydd wedi cael eu nodi'n ddiweddar fel rhai marw ar y WDS ond nad ydynt wedi'u nodi fel rhai marw ar system Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau;
- Cofnodion gyda dyddiad geni sy'n wahanol i ddyddiad geni'r WDS ar gyfer yr un claf.

I. Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol (Adran 8 Archwilio a Sicrwydd)

Mae archwilio mynediad defnyddwyr yn hanfodol i sicrhau bod y rhai sydd â mynediad at wybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaethau yn cael eu dwyn i gyfrif. Er mwyn galluogi hyn, bydd y Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol (NIIAS) yn cael ei gymhwyso i'r Cofnodion Iechyd Electronig a Rennir, a fydd yn cynhyrchu cofnodion cyrchu a fydd yn galluogi craffu ar bob mynediad i'r cofnod.

- MEWNOL -

OS YW'R DDOGFEN HON YN CAEL EI HARGRAFFU, DAIFF Y DDOGFEN HON YN DDOGFEN NA ELLIR EI RHEOLI

Tudalen 8 o 12

Atodiadau: Cefnogi'r Safon Rheoli ar gyfer cofnodion iechyd a gofal electronig (gwybodaeth a chanllawiau atodol)



Mae'r archwiliadau awtomataidd hyn yn ofyniad o dan Becyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth GIG Cymru, er mwyn rhoi sicrwydd bod cyfrinachedd cleifion yn cael ei gynnal.

Mae'r feddalwedd:

- Yn symleiddio'r broses o ddadansoddi cofnodion cyrchu a gymerwyd o systemau clinigol;
- Yn ei gwneud hi'n haws cynhyrchu adroddiadau;
- Yn canfod ac yn rhybuddio Llywodraethu Gwybodaeth am fynediad a allai fod heb awdurdod i systemau electronig sy'n dal gwybodaeth am gleifion;
- Yn amlygu gweithgarwch anarferol neu amheus i'w ymchwilio ymhellach;
- Yn galluogi ymchwilio i fynediad at gofnodion cleifion penodol;
- Yn sicrhau y gall staff, a allai fod yn gleifion ar ryw adeg hefyd, fod yn dawel eu meddwl gan wybod bod eu cofnod claf hefyd wedi'i ddiogelu gan y feddalwedd hon.

Mae'r Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol yn craffu bob tro mae'r Cofnod Iechyd Electronig a Rennir yn cael ei gyrchu ac mae ganddyn nhw'r gallu i hidlo gwybodaeth yn unol â'r polisiâu cytunedig a nodir isod. Diben yr allbynnau a gynhyrchir yw cynorthwyo i bennu torri polisiâu lle mae defnyddiwr wedi cael mynediad at wybodaeth nad oes ganddo hawl i'w gweld. Bydd y mynediadau hyn yn destun yr adroddiadau canlynol:

- **Cofnodion hanesyddol** – mae gan aelod o staff fynediad at gofnod iechyd hanesyddol claf heb gael mynediad at gofnod mwy diweddar yn gyntaf;
- **Yr un cyfenw** – mae gan aelod o staff fynediad at nifer o gofnodion iechyd gyda'r un cyfenw;
- **Cofnod ei hun** – mae gan aelod o staff fynediad at ei gofnod iechyd ei hun;
- **Aelodau o'r teulu** – digwyddiadau lle mae aelod o staff wedi cael mynediad at gofnodion cleifion ar ran aelod o'r teulu;
- **Person o ddiddordeb** – mae gan aelod o staff fynediad at gofnod iechyd person o ddiddordeb yn y cyfryngau lleol neu genedlaethol;
- **Cydweithwyr** – mae aelod o staff wedi cael mynediad at gofnod iechyd cydweithiwr.

Rhaid i Sefydliadau GIG Cymru sicrhau bod ganddynt yr adnoddau a'r set sgiliau i ddefnyddio a rheoli'r Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol yn weithredol, a bod defnyddwyr yn cael eu cefnogi trwy rwydwaith cymorth pwrpasol.

J. Cod Ymarfer Rheoli Cofnodion ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022 (Adran 9 – Rheoli Cofnodion)

Mae Cod Ymarfer Rheoli Cofnodion ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022 ("y Cod") yn ganllaw i sefydliadau ei ddefnyddio mewn perthynas ag arfer rheoli cofnodion.

Mae'r Cod wedi'i seilio ar God Ymarfer Rheoli Cofnodion ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2021

- MEWNOL -

OS YW'R DDOGFEN HON YN CAEL EI HARGRAFFU, DAIFF Y DDOGFEN HON YN DDOGFEN NA ELLIR EI RHEOLI

Tudalen 9 o 12

Atodiadau: Cefnogi'r Safon Rheoli ar gyfer cofnodion iechyd a gofal electronig (gwybodaeth a chanllawiau atodol)



a ddatblygwyd gan NHSX yn Lloegr, ac mae'n darparu fframwaith ar gyfer rheoli cofnodion cyson ac effeithiol yn seiliedig ar safonau sefydledig a deddfwriaeth gyfredol.

Mae'n cynnwys canllawiau ar bynciau megis cyfrifoldebau cyfreithiol, proffesiynol, sefydliadol ac unigol wrth reoli cofnodion. Mae hefyd yn cynghori ar sut i ddylunio a gweithredu system rheoli cofnodion gan gynnwys cyngor ar drefnu, storio, cadw a dileu cofnodion. Mae'n berthnasol i bob cofnod waeth beth fo'r cyfrwng y cânt eu cadw arno.

Drwy alinio polisïau lleol â'r Cod hwn, mae sefydliadau'n dangos bod cofnodion corfforaethol ac iechyd yn cael eu rheoli'n briodol.

K. Polisïau, gweithdrefnau ac adrodd ar ddigwyddiadau (Adran 10 – Polisi, Digwyddiadau a Rheoli Cwynion)

Digwyddiad Llywodraethu Gwybodaeth yw unrhyw ddigwyddiad sy'n cynnwys methiant gwirioneddol neu bosibl i fodloni gofynion deddfwriaeth Diogelu Data, dyletswydd cyfrinachedd cyfraith gyffredin neu unrhyw ddeddfwriaeth arall a allai fod yn berthnasol i'r wybodaeth honno. Mae hyn yn cynnwys datgelu neu gamddefnyddio data cyfrinachol yn anghyfreithlon, cofnodi neu rannu data anghywir, torri diogelwch gwybodaeth ac ymyrraeth amhriodol â phreifatwydd pobl.

Mae sefydliadau'n cydnabod y dylid lleihau'r difrod sy'n deillio o ddigwyddiadau difrifol posibl a gwirioneddol a/neu ddigwyddiadau diogelwch gwybodaeth a dysgu gwersi ohonynt. I'r perwyl hwn, bydd pob digwyddiad diogelwch yn cael ei adrodd cyn gynted ag y cânt eu cadarnhau, eu cofnodi a'u hymchwilio a bydd camau priodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r digwyddiad a dysgu gwersi (lle bo modd) fel nad ydynt yn digwydd eto. Mae hyn yn cynnwys gwendidau a nodwyd mewn dyluniad systemau neu weithdrefnau gweithredol a allai arwain at ddigwyddiad diogelwch gwybodaeth.

Bydd sefydliadau'n cyfeirio at "Weithio i Wella", gan gynnwys darparu hysbysiadau "rhybudd cynnar" i Lywodraeth Cymru. Dylid defnyddio hysbysiadau rhybudd cynnar mewn amgylchiadau lle mae angen rhybuddio Llywodraeth Cymru am fater sy'n peri pryder ar unwaith neu roi rhybudd o flaen llaw lle gallai fod effaith bosibl a allai effeithio ar Lywodraeth Cymru neu GIG Cymru. Bydd sefydliadau hefyd yn rhoi gwybod i Swyddog y Comisiynydd Gwybodaeth lle bo angen gwneud hynny o dan Erthygl 33 o Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU) a/neu unrhyw bynciau data o dan Erthygl 34 GDPR y DU.

Yn dibynnu ar natur y digwyddiad, anfonir hysbysiad hefyd i'r sefydliadau perthnasol eraill lle maent yn gweithredu fel rheolwyr ar y cyd neu reolwyr annibynnol yn gweithio gyda'i gilydd.

- MEWNOL -

OS YW'R DDOGFEN HON YN CAEL EI HARGRAFFU, DAIFF Y DDOGFEN HON YN DDOGFEN NA ELLIR EI RHEOLI

Tudalen 10 o 12

Atodiadau: Cefnogi'r Safon Rheoli ar gyfer cofnodion iechyd a gofal electronig (gwybodaeth a chanllawiau atodol)



Atodiad 2

Yn y Cytundeb hwn mae gan y geiriau canlynol yr ystyron canlynol:

Term	Diffiniad
Trywydd / Cofnod Archwilio	Llwybr archwilio (neu gofnod archwilio) yw mynediad at gofnod a newidiadau a wnaed iddo, pam a phryd y gwnaed hynny a pha newidiadau a wnaed.
Toriad data	Datgelu neu gamddefnyddio data personol cyfrinachol yn anghyfreithlon ac ymyrraeth amhriodol â phreifatrwydd pobl.
Rheolydd Data	Person (unigolyn neu sefydliad) sy'n pennu'r dibenion y mae unrhyw ddata personol cyfrinachol yn cael ei brosesu ar ei gyfer a'r modd y caiff ei brosesu. Rhaid i reolwyr data sicrhau bod unrhyw brosesu data personol y maent yn gyfrifol amdano yn cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data. Mae rheolwyr data ar y cyd yn cytuno i rannu cronfa o ddata personol y maent yn ei brosesu'n annibynnol ar ei gilydd.
Prosesydd Data	Mewn perthynas â data personol, mae'n golygu unrhyw berson (ac eithrio gweithiwr y rheolwr data) sy'n prosesu'r data ar ran y rheolwr data.
Unigolyn Dynodedig	Uwch reolwr o fewn y sefydliad a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr ymrwymadau o dan y Safon Rheoli yn cael eu gweithredu, eu monitro, eu deall a'u gweithredu gan ymarferwyr perthnasol a bod mynediad at wybodaeth bersonol yn cael ei fonitro a'i archwilio'n rheolaidd i sicrhau bod mynediad priodol yn cael ei gynnal.
Gofal Uniongyrchol	Gweithgaredd clinigol neu iechyd cyhoeddus sy'n ymwneud â gwneud diagnosis, atal, ymchwilio a thrin salwch.
Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU	Rheoliad ar ddiogelu personau naturiol mewn perthynas â phrosesu data personol ac ar symudiad rhydd data o'r fath.
Llywodraethu Gwybodaeth	Sut mae sefydliadau'n rheoli'r ffordd y mae gwybodaeth a data'n cael eu trin yn y GIG. Mae'n cwmpasu'r casglu, y defnyddio, y cyrchu a'r datgomisiynu yn ogystal â gofynion a safonau y mae angen i sefydliadau a'u cyflenwyr eu cyflawni i gyflawni'r rhwymedigaethau bod gwybodaeth yn cael ei thrin yn gyfreithlon, yn ddiogel, yn effeithlon, yn effeithiol ac mewn modd sy'n cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd.
Perthynas gyfreithlon	Y berthynas sy'n bodoli rhwng unigolyn a'r gweithwyr gofal iechyd a chymdeithasol proffesiynol a'r staff sy'n darparu neu'n cefnogi eu gofal

- MEWNOL -

OS YW'R DDOGFEN HON YN CAEL EI HARGRAFFU, DAIFF Y DDOGFEN HON YN DDOGFEN NA ELLIR EI RHEOLI

Tudalen 11 o 12

Atodiadau: Cefnogi'r Safon Rheoli ar gyfer cofnodion iechyd a gofal electronig (gwybodaeth a chanllawiau atodol)



Ymarferwyr	Term cynhwysol i ddisgrifio unrhyw staff sy'n gweithio i'r sefydliadau partner sy'n ymwneud â gofalu am y defnyddiwr gwasanaethau neu ddarparu gwasanaethau iddo.
Defnyddiwr Gwasanaethau:	Unrhyw berson sy'n derbyn gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol, er enghraifft y claf.
Cofnodion Defnyddwyr Gwasanaethau	Cofnod electronig neu bapur sy'n cynnwys gwybodaeth am berson at ddiben rheoli ei ofal iechyd.
Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth (SIRO)	Rheolwr Gweithredol neu Uwch Reolwr ar y Bwrdd sy'n gyfarwydd â risgiau gwybodaeth ac ymateb y sefydliad i risg. Rôl y SIRO yw cymryd perchnogaeth dros bolisi risg gwybodaeth y sefydliad, a gweithredu fel eiriolwr dros risg gwybodaeth ar y Bwrdd.
Trydydd partïon	Mewn perthynas â data personol, unrhyw berson heblaw testun y data, y rheolwr data, neu brosesydd data.

- MEWNOL -

OS YW'R DDOGFEN HON YN CAEL EI HARGRAFFU, DAIFF Y DDOGFEN HON YN DDOGFEN NA ELLIR EI RHEOLI

Tudalen 12 o 12